Beth i'w wneud ar ôl marwolaeth

yng Nghymru neu Loegr

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

Cyflwyniad

Pan fydd rhywun agos atoch yn marw, mae'n rhaid i chi wneud llawer o benderfyniadau a threfniadau, yn aml ar adeg o ofid personol.

Mae'r daflen hon yn rhoi help ac arweiniad i chi o ran beth i'w wneud pan fydd rhywun yn marw. Er enghraifft, mae'n dweud wrthych sut i wneud y canlynol:

- cael tystysgrif feddygol sy'n dangos achos y farwolaeth
- cofrestru'r farwolaeth
- trefnu angladd, a
- penderfynu peth i'w wneud gydag eiddo'r unigolyn.

Mae hefyd yn sôn wrthych am yr help ariannol y gallech ei gael ac yn rhestru'r sefydliadau a all roi cymorth a chysur i chi.

Mae'r daflen hon hefyd yn dweud wrthych beth i'w wneud ar ôl marwolaeth yng Nghymru neu Loegr. Mae rhywfaint o'r wybodaeth yn wahanol i farwolaethau yn yr Alban. Ewch i'r wefan www.scotland.gov.uk neu ewch i Ganolfan Gwaith yn yr Alban i weld taflen am hyn a gynhyrchir gan Lywodraeth yr Alban.

Cynnwys

Beth i'w wneud yn gyntaf 5
Os bydd rhywun yn marw mewn ysbyty....5
Os bydd rhywun yn marw rywle arall 5
Os nad yw achos y farwolaeth yn glir 6
Os yw'r organau a/neu'r corff am gael eu rhoi 12
Os ydych am symud y corff allan o Gymru neu Loger 14

Sut i gofrestru marwolaeth 15
Beth sy'n digwydd yn swyddfa'r cofrestrydd.....16
Y dystysgrif marwolaeth 18
Cofrestru marwolaeth baban marwanedig 18

Trefnu'r angladd 21
Trefnu'r angladd heb drefnydd angladdau 22
Dewis trefnydd angladdau 22
Gwneud penderfyniad o ran amlosgi neu gladdu 24

Os bu'r unigolyn farw y tu allan i Gymru neu Loegr 27
Cofrestru marwolaeth rhywun.....27
Angladdau dramor 28
Dod â'r corff yn ôl i Gymru neu Loegr 28

Talu am yr angladd.....31
Os bydd rhywun wedi trefnu i dalu am ei angladd ei hun 31
Cynlluniau pensiwn cyflogwr neu bensiynau personol 32
Pensiynau a thaliadau eraill.....34

Taliadau Angladd o'r Gronfa Gymdeithasol 35
Pan fydd pensiynwr rhyfel yn marw 37
Mathau eraill o help 38

Delio ag ystâd ac eiddo rhywun 39
Yr ewyllys 39
Eiddo perchnogaeth ar y cyd 40
Cael caniatâd i ddelio â'r ystâd 40
Beth sydd angen i'r ysgutor neu'r gweinyddydd ei wneud?.....42
Dosbarthu'r ystâd a delio â hawliadau ar yr ystâd 48
Crynodeb o'r rheolau diewyllysedd.....49
Pwy sy'n gallu gwneud hawliadau ar ystâd? 51

Help a chymorth i chi.....54
Budd-daliadau profedigaeth 55
Hawliadau a allai fod wedi newid 58
Taliadau ar gyfer profedigaeth mewn amgylchiadau arbennig.....61

Sut i fagu baban neu blentyn 63
Budd-daliadau Mamolaeth 63
Budd-dal Plant 63
Lwfans Gwarcheidwad 63

Help os nad oes gennych ddigon o arian i fyw arno neu os oes ydych ar incwm isel.....65
Credydau treth 65
Cymhorthdal Incwm 66
Lwfans Ceisio Gwaith.....67
Credyd Pensiwn 67
Budd-dal Tai.....68
Budd-dal Treth Cyngor 68
Help gyda chostau iechyd 69

Beth i'w wneud yn gyntaf

Os bydd rhywun yn marw mewn ysbyty

Os bydd rhywun yn marw mewn ysbyty, bydd staff yr ysbyty yn cysylltu â'r sawl a enwyd gan yr unigolyn hwnnw fel ei 'berthynas agosaf'.

'Ysgutor' yw'r sawl a enwir mewn ewyllys a ddylai fod yn gyfrifol am bopeth y mae'r ewyllys yn gofyn iddynt wneud

Bydd yr ysbyty yn cadw'r corff yn y corffdy nes bydd yr ysgutor neu rywun yn gweithredu ar ei ran yn trefnu i'r corff gael ei symud oddi yno. Mae gan y rhan fwyaf o drefnwyr angladdau gapel gorffwys lle cedwir y corff tan yr angladd.

Os bydd rhywun yn marw rywle arall

Os oeddech yn disgwyl marwolaeth yr unigolyn

Os oeddech yn disgwyl i'r unigolyn farw dylech gysylltu â'r meddyg a oedd yn gofalu amdano yn ystod ei salwch. Os gall y meddyg gadarnhau achos y farwolaeth byddant yn rhoi'r canlynol i chi:

- tystysgrif marwolaeth sy'n dangos achos y farwolaeth (mae hon am ddim a chaiff ei rhoi mewn amlen wedi'i chyfeirio at y cofrestrydd), a
- hysbysiad ffurfiol sy'n dweud bod y meddyg wedi llofnodi'r dystysgrif marwolaeth (mae hwn yn nodi sut y gallwch gofrestru'r farwolaeth).

Os nad oeddech yn disgwyl marwolaeth yr unigolyn

Os oedd marwolaeth yr unigolyn yn ddisymwth neu'n annisgwyl neu os byddwch yn darganfod corff, dylech gysylltu â:

- meddyg teulu'r unigolyn (os ydych yn gwybod pwy ydyw), neu
- perthynas agosaf yr unigolyn.

Mae'n rhaid i chi gysylltu â'r heddlu hefyd. Gallant eich helpu i ddod o hyd i'r bobl a restrir uchod os bydd angen.

Os nad yw achos y farwolaeth yn glir

Os nad yw achos y farwolaeth yn glir, rhaid i'r meddyg neu bobl eraill a oedd yn helpu i ofalu am yr unigolyn hysbysu'r crwner am y farwolaeth. Gall y crwner benderfynu bod angen post-mortem a chwest.

Crwneriaid

Mae'r crwner yn feddyg neu'n gyfreithiwr sy'n gyfrifol am ymchwilio i farwolaeth pan:

- fydd yr achos yn ddisymwth ac yn anhysbys
- roedd yn dreisgar, yn annaturiol neu fe ddigwyddodd mewn amgylchiadau amheus, neu
- digwyddodd mewn carchar neu yn y ddalfa.

Yn yr achosion hyn, y crwner yw'r unig un a all gadarnhau achos y farwolaeth. Bydd y meddyg yn ysgrifennu ar yr hysbysiad ffurfiol ei fod wedi cyfeirio'r farwolaeth at y crwner.

Os hoffech gael cyngor neu wybodaeth am farwolaeth rydych wedi'i hysbysu i'r crwner, cysylltwch â swyddfa'r crwner. Gallwch gael y cyfeiriad o orsaf yr heddlu, eich llyfrgell leol neu'r ysbyty lle bu farw'r unigolyn.

Post-mortem

Post-mortem yw archwiliad meddygol o'r corff, a all ganfod rhagor o wybodaeth am achos y farwolaeth. Ni ddylai achosi oedi o ran trefnu'r angladd.

Gall y crwner drefnu post-mortem. Os ydych yn perthyn i'r sawl a fu farw, nid oes angen iddynt gael eich caniatâd i wneud hyn, ond mae hawl gennych i gael meddyg i'ch cynrychioli yn y post-mortem. Os felly, bydd y crwner yn rhoi gwybod i chi ble a phryd y cynhelir y post-mortem.

Os bydd yr unigolyn yn marw mewn ysbyty, gallwch ofyn i'r crwner drefnu i batholegydd arall yn hytrach na'r un a gyflogir neu sydd mewn cysylltiad â'r ysbyty lle bu farw'r unigolyn gynnal y post-mortem.

Bydd y crwner fel arfer yn talu i symud corff yr unigolyn o'r lle y bu farw i'r corffdy ar gyfer y post-mortem. Gallwch ddewis y trefnydd angladdau. Rhaid i'r crwner ofyn i chi (os mai chi yw perthynas agosaf yr unigolyn) os oes angen cadw unrhyw organau neu feinwe ar ôl cynnal y post-mortem.

Bydd y crwner yn dewis trefnydd angladdau i symud corff yr unigolyn o'r lle y bu farw i gorffdy'r ysbyty. Yna gallwch ddewis trefnydd angladdau i gynnal yr angladd, unwaith y bydd y crwner wedi gorffen y post-mortem.

Os bydd y post-mortem yn dangos bod yr unigolyn wedi marw o ganlyniad i achosion naturiol, gall y crwner roi hysbysiad a elwir yn 'Ffurflen B Binc' (ffurflen 100B). Mae'r ffurflen hon yn dangos achos y farwolaeth er mwyn gallu cofrestru'r farwolaeth.

Os yw'r corff am gael ei amlosgi, bydd y crwner yn rhoi'r dystysgrif ar gyfer amlosgi i chi sy'n eich galluogi i drefnu i'r corff gael ei amlosgi (gweler tudalen 24).

Cwestau

Ymchwiliad i ganfod y ffeithiau i achos meddygol ac amgylchiadau'r farwolaeth yw cwest. Caiff ei gynnal yn gyhoeddus, weithiau gyda rheithgor. Y crwner sydd i benderfynu sut i drefnu'r ymchwiliad yn y ffordd orau i'r cyhoedd a pherthnasau'r sawl a fu farw.

Bydd y crwner yn cynnal cwest os:

- bu'r farwolaeth heb achos hysbys, yn dreisgar neu'n annaturiol
- achoswyd y farwolaeth gan afiechyd yn y gweithle, neu
- bu farw'r unigolyn yn y carchar.

Bydd crwneriaid yn cynnal cwestau o dan yr amgylchiadau hyn hyd yn oed os bu'r unigolyn farw y tu allan i Gymru neu Loegr, os caiff y corff ei ddychwelyd yma. Os cafodd corff rhywun ei ddinistrio gan dân neu ei fod mewn lle na ellir ei adfer, gall crwner gynnal cwest o dan orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol.

Os cynhelir cwest, rhaid i'r crwner roi gwybod i'r bobl ganlynol (os yw ei enw a'i gyfeiriad yn hysbys i'r crwner):

- gŵr, gwraig neu bartner sifil y sawl a fu farw
- y perthynas agosaf (os nad y gŵr, gwraig neu bartner sifil yw hwn), a
- cynrychiolydd personol neu ysgutor yr unigolyn (os nad ydynt yn un o'r bobl uchod).

Gallwch fynd i gwest a gofyn cwestiynau i'r tystion, ond dim ond am achos meddygol ac amgylchiadau marwolaeth yr unigolyn, os ydych yn un o'r canlynol:

- Rhiant, plentyn, gŵr, gwraig neu bartner neu gynrychiolydd personol y person a fu farw;
- Buddiolwr o dan yswiriant y person a fu farw;
- Yr yswirydd a drefnodd y polisi;
- Person y gallai ei weithred neu esgleustra fod wedi achosi neu gyfrannu at y farwolaeth;
- Person a benodwyd gan undeb llafur y person a fu farw os gallent fod wedi marw o anaf diwydiannol neu haint;
- Person a benodwyd gan awdurdod gorfodi neu adran o'r llywodraeth
- Prif swyddog yr heddlu.

Gallai'r crwner benderfynu ei fod yn briodol caniatáu i bobl nas rhestrir yma ofyn cwestiynau.

Nid yw'n angenrheidiol cael cynrychiolaeth gyfreithiol mewn cwest. Nid yw'r cwest yn dreial felly nid oes erlyniad nac amddiffyniad. Ni ddisgwylir i dystion gyflwyno dadleuon cyfreithiol ac ni all cwest roi bai ar unrhyw un am y farwolaeth. Bydd y crwner yn sicrhau bod y broses yn ddiduedd ac yn drylwyr, a disgwylir iddo gynorthwyo teuluoedd a sicrhau y caiff eu cwestiynau eu hateb.

Os bydd y cwest yn cymryd tipyn o amser, gofynnwch i'r crwner roi 'tystysgrif interim o ffaith y farwolaeth' neu lythyr yn cadarnhau marwolaeth yr unigolyn i chi. Gallwch ddefnyddio'r dystysgrif hon neu lythyr at ddibenion budd-daliadau ac Yswiriant Gwladol. Fel arfer dylai sefydliadau ariannol dderbyn y dystysgrif hon fel tystiolaeth o farwolaeth. Gall y crwner roi 'gorchymyn claddu' neu 'dystysgrif ar gyfer amlosgi' i chi er mwyn chi allu trefnu'r angladd, ar yr amod na fydd angen y corff ar gyfer archwiliad pellach.

Bydd y crwner hefyd yn anfon 'tystysgrif ar ôl cwest' at y cofrestrydd, a fydd yn nodi achos y farwolaeth. Mae hyn yn golygu y gall y cofrestrydd gofrestru'r farwolaeth.

Ewch ar-lein yn www.direct.gov.uk/cy i weld rhagor o wybodaeth am y system cwest a beth yw cyfrifoldebau'r crwner.

Crynodeb o ffurflenni a thystysgrifau

Isod, rhestrir rhai o'r ffurflenni a'r tystysgrifau a allai gael eu rhoi i chi gan feddygon a chrwneriaid. Mae'r rhestr yn egluro pryd a ble y gallwch gael pob ffurflen.

Pan fydd rhywun wedi marw	**Cewch y canlynol fel arfer**	**Cewch hyn gan y canlynol**
Ym mhob achos	Hysbysiad ffurfiol	Meddyg
Nid yw'r farwolaeth wedi'i chyfeirio at grwner	Tystysgrif feddygol	Meddyg
Baban marwanedig	Tystysgrif feddygol ar gyfer marwenedigaeth	Meddyg neu fydwraig
Cyfeirir y farwolaeth at grwner, ond nid oes cwest	Hysbysiad gan y crwner (ffurflen 100A binc neu ffurflen 100B)	Crwner (bydd y crwner fel yn arfer yn ei anfon yn uniongyrchol at y cofrestrydd, ond efallai y gofynnir i chi fynd ag ef at y cofrestrydd yn bersonol)
Mae cwest ac mae'r corff i'w gladdu	Gorchymyn claddu (ffurflen 101)	Crwner
Mae post-mortem neu gwest ac mae'r corff i'w amlosgi	Tystysgrif ar gyfer amlosgi y crwner	Crwner
Mae'r corff i'w symud o Gymru neu Loegr	Hysbysiad symud (ffurflen 104)	Crwner

Os yw'r organau a/neu'r corff am gael eu rhoi

Weithiau mae'n bosibl defnyddio organau a meinweoedd corff o rywun a fu farw, a allai helpu eraill i fyw.

Mae p'un a ellir trawsblannu organau ai peidio yn dibynnu ar sut a lle y bu farw'r unigolyn. Gall fod yn bosibl roi organau mewnol (fel yr iau, afu, arennau, calon neu ysgyfaint) os yw'r person wedi marw mewn ysbyty tra ei fod ar beiriant anadlu, ond nid os bu farw gartref neu rywle arall. Lle bynnag y bu farw, gall fod yn bosibl rhoi cornbilennau, falfau'r galon a chroen ac asgwrn.

Os yw achos y farwolaeth yn amheus, yn ddisymwth neu'n annisgwyl a'i bod wedi'i chyfeirio at y crwner, rhaid i'r crwner gytuno i dynnu'r organ, oherwydd gallai ei dynnu effeithio ar dystiolaeth bwysig. Fel arfer gellir gwneud penderfyniadau yn gyflym iawn.

Os oedd gan y person a fu farw gerdyn rhoi neu y'i rhestrwyd ar Gofrestr Rhoi Organau'r GIG a'i bod yn bosibl trawsblannu organ, cysylltu â'r person cymwys priodol (gweler tudalen 13) i ofyn p'un a ydynt yn cytuno i'r rhodd ai peidio.

Lle na nododd y person a fu farw ei gydsyniad (neu wrthodiad) i roi ei organau ac, yn achos oedolyn, nid oes cynrychiolydd enwebedig wedi'i benodi, gall rhywun sy'n agos ato roi caniatâd i dynnu, storio a defnyddio organau a meinweoedd i'w trawsblannu.

Mae Deddf Meinweoedd Dynol 2004 yn nodi'r drefn o ran sut y dylid cysylltu â'r rhai a fu'n agos i'r ymadawedig at ddibenion cael caniatâd i ddefnyddio organau neu feinweoedd y corff. Y drefn flaenoriaethu o ran hyn yw:

- Partner
- Rhiant neu blentyn
- Brawd neu chwaer
- Nain, taid neu ŵyr/wyres
- Nai neu nith
- Llysdad neu llysfam
- Hanner brawd neu hanner chwaer
- Cyfaill agos

Os nad ydych eisoes wedi cael eich gofyn i roi organ a/neu feinwe a'ch bod am gael rhagor o wybodaeth am p'un a yw'n bosibl ai peidio, siaradwch â staff yr ysbyty ac ewch i wefan Trawsblannu'r DU yn www.uktransplant.org.uk

Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r person arall hwn yn bartner i chi.

Rhoi corff at ddibenion addysg, hyfforddiant neu ymchwil feddygol

Mae pobl sy'n rhoi eu cyrff yn gwneud cyfraniad hanfodol i hyfforddiant an ysgolion meddygol. Rhaid bod y rhai sydd am roi eu cyrff wedi gwneud eu dymuniadau yn hysbys yn ysgrifenedig cyn iddynt farw, a rhoi gwybod i'w perthynas agosaf.

Mae'r Awdurod Meinweoedd Dynol yn rheoleiddio'r maes hwn, ac os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am sut i roi eich corff, ewch i www.hta.gov.uk

Os ydych am symud y corff allan o Gymru neu Loger

Os ydych am symud y corff allan o Gymru neu Loegr (er enghraifft, er mwyn i chi allu cynnal yr angladd dramor), mae'n rhaid i chi gael caniatâd y crwner. Bydd angen i chi wneud hyn o leiaf 4 diwrnod cyn eich bod am symud y corff. Weithiau, gall y crwner roi ei ganiatâd yn gynharach.

Ar ôl i'r crwner orffen ei ymchwiliadau, bydd yn rhoi 'hysbysiad symud' i chi.

Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol ym mhob achos pan symudir y corff allan o Gymru neu Loegr, nid dim ond pan fyddwch yn rhoi gwybod am farwolaeth i'r crwner.

Sut i gofrestru marwolaeth

Rhaid cofrestru'r farwolaeth gyda'r cofrestrydd genedigaethau a marwolaethau. Gallwch ddod o hyd i'r cyfeiriad yn y llyfr ffôn.

Os nad yw'r farwolaeth wedi'i chyfeirio at y crwner dylech ddweud wrth y cofrestrydd am hyn cyn gynted â phosibl. Rhaid cofrestru'r farwolaeth o fewn 5 diwrnod (oni bai bod y cofrestrydd yn dweud bod angen ymestyn y cyfnod hwn).

Os cyfeiriwyd y farwolaeth at y crwner, ni ellir ei chofrestru nes bydd y cofrestrydd wedi cael caniatâd y crwner i wneud hynny (gweler tudalen 10).

Gallwch roi'r wybodaeth i gofrestru marwolaeth i unrhyw gofrestrydd yng Nghymru a Lloegr. Bydd angen i chi fynd i swyddfa'r cofrestrydd i ddweud wrthynt yn ffurfiol am farwolaeth yr unigolyn.

Holwch i weld pryd fydd y cofrestrydd yno ac ai dim ond chi sydd angen mynd yno. Mae'n bosibl y bydd angen i rywun arall roi rhywfaint o wybodaeth i'r cofrestrydd er mwyn cofrestru'r farwolaeth.

Os digwyddodd y farwolaeth mewn ardal wahanol i ardal y cofrestrydd a ddewiswch, byddant yn anfon y manylion hyn at y cofrestrydd sy'n gyfrifol am yr ardal honno i gofrestru'r farwolaeth. Gallai hyn achosi oedi wrth drefnu'r angladd.

Os bu farw'r unigolyn ar long neu awyren, holwch ym mha wlad y mae angen i gofrestru'r farwolaeth. Fel arfer, dyma'r wlad y mae'r llong neu'r awyren wedi'i chofrestru ynddi.

Beth sy'n digwydd yn swyddfa'r cofrestrydd

Dylech fynd â'r canlynol gyda chi pan fyddwch yn mynd at y cofrestrydd:

- y dystysgrif marwolaeth sy'n dangos achos y farwolaeth
- cerdyn meddygol yr unigol, os yn bosibl, a
- tystysgrifau geni a phriodas neu bartneriaeth sifil yr unigolyn, os byddant ar gael.

Dylech ddweud y canlynol wrth y cofrestrydd:

- y dyddiad a'r lleoliad y bu farw'r unigolyn
- cyfeiriad arferol yr unigolyn (ei unig dŷ neu ei brif dŷ)
- enwau cyntaf a chyfenw'r unigolyn (ac enw cyn priodi, os yw'n berthnasol)
- dyddiad a man geni'r unigolyn (y dref a'r wlad os cafodd ei eni yn y DU, a'r wlad os cafodd ei eni dramor)
- galwedigaeth yr unigolyn ac enw a galweidgaeth eu gŵr, gwraig neu bartner sifil
- p'un a oedd yr unigolyn yn cael pensiwn neu fudd-dal gan y Llywodraeth, a

- dyddiad geni y gŵr, gwraig neu bartner sifil (sy'n fyw os oedd yr unigolyn yn briod neu mewn partneriaeth sifil).

Bydd y cofrestrydd sy'n cofrestru'r farwolaeth yn rhoi'r canlynol i chi.

- Tystysgrif ar gyfer claddu neu amlosgi (sef 'y ffurflen werdd'), oni bai bod y crwner wedi rhoi gorchymyn claddu (ffurflen 101) neu dystysgrif ar gyfer amlosgi i chi. Mae'r rhain yn rhoi caniatâd i'r corff gael ei gladdu neu i wneud cais i'r corff gael ei amlosgi. Dylech fynd â'r dystysgrif hon i'r trefnydd angladdau er mwyn gallu cynnal yr angladd.
- Tystysgrif cofrestru marwolaeth (ffurflen BD8). At ddibenion gwneud cais am fudd-daliadau yn unig y defnyddir hon. Dylech ddarllen y wybodaeth ar gefn y dystysgrif. Os oes unrhyw ran o'r wybodaeth yn berthnasol, cwblhewch y dystysgrif a chysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith neu'r Gwasanaeth Pensiwn.
- Taflenni am fudd-daliadau profedigaeth a threth incwm ar gyfer gŵr, gwragedd, neu bartneriaid sifil sy'n fyw, lle y bo'n briodol.

Os byddwch yn cofrestru'r farwolaeth yn rhywle heblaw'r ardal lle digwyddodd y farwolaeth, bydd y cofrestrydd yn anfon y wybodaeth hon atoch.

Y dystysgrif marwolaeth

Mae'r dystysgrif marwolaeth yn gopi ardystiedig o'r hyn a ysgrifennwyd ar y gofrestr farwolaeth. Gall y cofrestrydd adael i chi gael tystysgrif marwolaeth os ydych am gael un, ond bydd yn rhaid i chi dalu ffi.

Efallai y bydd angen tystysgrif marwolaeth arnoch ar gyfer yr ewyllys (gweler tudalen 39), ac unrhyw geisiadau am bensiwn, polisïau yswiriant, tystysgrifau cynilo banc a bondiau premiwm.

Efallai y byddwch am ofyn am fwy nag un copi o'r dystysgrif marwolaeth ar unwaith, gan y bydd y pris yn cynyddu os bydd angen un arnoch yn ddiweddarach. Efallai na all y cofrestrydd roi'r holl gopïau i chi ar unwaith ac efallai y bydd yn gofyn i chi ffonio'n ôl neu ofyn i chi dalu swm tuag at y costau postio er mwyn iddo allu eu hanfon atoch.

Cofrestru marwolaeth baban marwanedig

Os yw baban yn farwanedig (wedi'i eni'n farw ar ôl 24ain wythnos y beichiogrwydd) cewch dystysgrif feddygol ar gyfer marwenediagaeth a lofnodir gan y fydwraig neu'r meddyg, a dylech ei rhoi i'r cofrestrydd. Os nad oedd meddyg na bydwraig yno, ac nad oes meddyg na bydwraig wedi archwilio'r corff, mae'n rhaid i chi lofnodi ffurflen (ffurflen 35) a roddir i chi gan y cofrestrydd.

Bydd y cofrestrydd yn rhoi tystysgrif i chi ar gyfer claddu neu amlosgi a thystysgrif ar gyfer cofrestru marwenedigaeth.

Gallwch ofyn am gael enw cyntaf ar gyfer baban marwanedig pan fyddwch yn cofrestru'r farwolaeth. Bydd y cofrestrydd yn ysgrifennu enw'r baban ar y tystysgrifau hyn os cofnodir yr enw ar y gofrestr. Mae hefyd yn bosibl cael copïau ardystiedig o'r hyn a ysgrifennwyd ar y gofrestr farwolaeth.

Budd-daliadau mamolaeth

Os oedd eich baban yn farwanedig ar ôl 24 wythnos o feichiogrwydd gallech gael hawl i gael Tâl Mamolaeth Statudol neu Lwfans Mamolaeth. Mae taflen ar gael gan y Ganolfan Byd Gwaith sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am hyn i chi.

Gallwch roi'r wybodaeth i gofrestru marwenedigaeth i unrhyw gofrestrydd yng Nghymru neu Loegr. Mae'r weithdrefn i gofrestru marwenedigaeth yn debyg i'r weithdrefn i gofrestru marwolaeth (gweler tudalen 15).

I gael rhagor o wybodaeth am drefnu angladd i faban marwanedig, gweler tudalen 23.

Crynodeb o ffurflenni a thystysgrifau

Isod ceir rhestr o rai o'r ffurflenni a'r tystysgrifau y bydd y cofrestrydd yn eu rhoi i chi pan fyddwch yn cofrestru marwolaeth. Mae'r rhestr yn egluro pryd a ble y gallwch gael pob ffurflen.

Pan fyddwch yn cofrestru marwolaeth	**Cewch y canlynol fel arfer**
Os na fydd crwner wedi rhoi tystysgrif ar gyfer amlosgi neu orchymyn claddu	Tystysgrif claddu neu amlosgi (y ffurflen werdd)
Os oes angen i'r Ganolfan Byd Gwaith neu'r Gwasanaeth Pensiwn wybod am y farwolaeth	Tystysgrif cofrestru marwolaeth (ffurflen BD8)
Os oes angen tystiolaeth arnoch o'r farwolaeth i gael profiant, ceisiadau am bensiynau, polisïau yswiriant, tystysgrifau cynilo neu fondiau premiwm	Tystysgrif marwolaeth
Os yw baban yn farwanedig	Cofrestru marwenedigaeth
Os yw baban yn farwanedig a'ch bod am ei gladdu neu ei amlosgi	Tystysgrif claddu neu amlosgi (y ffurflen wen)

Trefnu'r angladd

Peidiwch â gwneud trefniadau terfynol yr angladd nes eich bod yn siŵr nad oes yn rhaid i chi roi gwybod am y farwolaeth i'r crwner, gan y gallai hyn effeithio ar y dyddiad y gellir cynnal yr angladd.

Dylech ganfod a oes ewyllys, gan y gallai roi manylion am ddymuniadau'r unigolyn o ran ei drefniadau angladd (gweler tudalen 39).

Os ydych yn trefnu angladd, rydych yn gyfrifol am dalu'r bil felly dylech sicrhau yn gyntaf o ble daw'r arian ac a fydd digon i dalu'r holl gostau.

Ceir rhai cyfreithiau o ran beth i'w wneud ar ôl i rywun farw. Mae'n rhaid cofrestru'r farwolaeth ac mae'n rhaid gofalu am y corff yn briodol, naill ai drwy gladdu neu amlosgi.

Os bydd angen i chi drefnu gwasanaeth claddu neu angladd yn unol â chrefydd benodol, gallwch gael cyngor gan weinidog y grefydd benodol honno neu sefydliad crefyddol yr oedd yr unigolyn a fu farw yn perthyn iddo.

Trefnu'r angladd heb drefnydd angladdau

Mae llawer o bobl yn dewis defnyddio trefnydd angladdau i drefnu angladd. Gwnânt hyn yn rhannol oherwydd ei bod yn haws, ar adeg sydd ar y cyfan yn adeg llawn straen.

Mae'n bosibl i chi drefnu angladd heb gymorth trefnydd angladdau, ond dylech gysylltu ag adran mynwentydd ac amlosgfeydd eich cyngor lleol i gael cyngor.

Dewis trefnydd angladdau

Gall ffrindiau, teulu, clerigwyr neu eich meddyg awgrymu cwmni lleol ag enw da. Os na, rhestrir y rhan fwyaf o gwmnïau lleol yn yr Yellow Pages. Cofiwch, gall eu costau amrywio'n sylweddol. Efallai y byddwch am gysylltu neu ymweld â mwy nag un cwmni.

Mae'r rhan fwyaf o drefnwyr angladdau yn dewis ymuno ag un o'r 2 sefydliad masnachu isod. Mae'n rhaid i drefnwyr angladdau sy'n aelodau ddangos rhestr prisiau i chi os byddwch yn gofyn, ac ni fyddant yn cynyddu unrhyw gostau y byddant yn eu rhoi i chi heb gael eich caniatâd.

Nid oes yn rhaid i drefnwyr angladdau fod mewn cymdeithas fasnachu, felly efallai y byddwch am sicrhau hyn cyn dewis un.

Cymdeithas Genedlaethol Trefnwyr Angladdau

Ffôn: 0845 230 1343

Gwefan: www.nafd.org.uk

Cymdeithas Genedlaethol Trefnwyr Angladdau Perthynol ac Annibynnol

Ffôn: 0845 230 6777

Gwefan: www.saif.org.uk

Mae gan y ddau sefydliad godau ymarfer. Mae'n rhaid i drefnwyr angladdau sy'n aelodau ddangos rhestr prisiau i chi os byddwch yn gofyn, ac ni fyddant yn cynyddu unrhyw gostau y byddant yn eu rhoi i chi heb gael eich caniatâd.

Bydd angen i'r trefnydd angladdau gael tystysgrif ar gyfer claddu neu amlosgi (y ffurflen werdd) neu orchymyn claddu, neu dystysgrif ar gyfer amlosgi sy'n rhoi caniatâd i gladdu neu i wneud cais am amlosgi (gweler tudalen 20).

Angladd i faban marwanedig

Gall yr ysbyty gynnig trefnu gwasanaeth claddu neu amlosgi, am ddim, i faban marwanedig, p'un a gafodd ei eni yn yr ysbyty neu gartref. Dylech drafod trefniadau'r angladd gyda staff yr ysbyty neu'r fydwraig.

Os byddwch yn derbyn y cynnig caiff y baban ei amlosgi neu ei gladdu ar ôl seremoni syml, neu gallwch drefnu angladd eich hun.

Am wybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 70.

Gwneud penderfyniad o ran amlosgi neu gladdu

Darllenwch yr ewyllys i weld a yw'r sawl sydd wedi marw wedi rhoi unrhyw gyfarwyddiadau ar gyfer eu hangladd. Yn gyffredinol, yr ysgutor neu'r perthynas agosaf sy'n penderfynu ar amlosgi neu gladdu. Nid oes rhaid i'r ysgutor ddilyn y cyfarwyddiadau am yr angladd sydd yn yr ewyllys.

Bydd y trefnydd angladdau yn eich helpu i benderfynu ble y dylid cadw'r corff tan yr angladd, a phryd a ble y dylid cynnal yr angladd.

Os bydd gwasanaeth neu seremoni, dylech gysylltu ag unigolyn priodol ar gyfer crefydd neu gred y sawl sydd wedi marw. Os nad ydych yn siŵr, dylai'r trefnydd angladdau allu eich helpu.

Amlosgiad

Ni all unrhyw un gael ei amlosgi nes bod achos y farwolaeth yn gwbl hysbys. Fel arfer bydd yr amlosgfa (neu'r trefnydd angladdau) yn gofyn am:

- ffurflen gais wedi'u llofnodi gan y perthynas agosaf neu'r ysgutor, **a**
- 2 dystysgrif amlosgi (y cyntaf wedi'i llofnodi gan y meddyg a roddodd y driniaeth a'r llall wedi'i llofnodi gan feddyg nad oedd yn rhan o driniaeth yr unigolyn a fu farw) **neu**
- ffurflen amlosgi a lofnodwyd gan y crwner.

Bydd yn rhaid i chi dalu am y tystysgrifau amlosgi a lofnodwyd gan y ddau feddyg. Os cyfeirir y farwolaeth at y crwner, ni fydd angen y 2 dystysgrif hyn arnoch. Yn lle hynny, bydd y crwner yn rhoi tystysgrif amlosgi i chi sydd am ddim.

Penodwyd y 'dyfarnwr meddygol' gan yr Ysgrifennydd Gwladol i awdurdodi'r holl amlosgiadau yn yr amlosgfa.

Os yw'r amlosgfa yn fodlon bod achos y farwolaeth wedi'i gadarnhau a bod yr holl ffurflenni wedi cael eu cwblhau'n gywir, bydd y 'dyfarnwr meddygol' yn awdurdodi amlosgiad drwy lofnodi ffurflen. Mae gan y dyfarnwr meddygol y pŵer i wrthod yr amlosgiad a gwneud ymholiadau pellach, ond rhaid iddo roi rheswm dros wneud hyn.

Os bu farw'r unigolyn y tu allan i Gymru neu Loegr, gweler tudalen 27.

Mae'n bwysig eich bod yn egluro i'r trefnydd angladdau neu staff yr amlosgfa beth rydych am ei wneud gyda'r llwch. Os nad yw hyn yn glir, byddant yn cysylltu â chi i drafod beth y dylent ei wneud.

Gallwch wasgaru llwch rhywun mewn gardd goffa neu hoff fan yr unigolyn, eu claddu mewn mynwent, neu eu cadw.

Yn achos babanod a phlant bach iawn, efallai na fydd unrhyw lwch ar ôl yr amlosgi. Mewn rhai amlosgfeydd gallwch drefnu i gael plac coffa y bydd yn rhaid i chi dalu amdano o bosibl.

Claddu

Cyn i rywun allu cael ei gladdu, mae'n rhaid bod gennych dystysgrif marwolaeth wedi'i llofnodi gan feddyg a thystysgrif ar ar gyfer claddu gan y cofrestrydd genedigaethau a marwolaethau (gweler tudalen 20).

Dylech ganfod a yw'r unigolyn eisoes wedi trefnu lle ar gyfer bedd mewn mynwent, drwy edrych ar ei ewyllys ac edrych drwy ei bapurau.

Bydd 'gweithred roddi' sy'n dangos y talwyd am le ar gyfer bedd mewn mynwent. Mae'r rhan fwyaf o fynwentydd ar agor i bob ffydd, felly gallwch gael y rhan fwyaf o fathau o wasanaeth neu seremoni. Awdurdodau lleol neu gwmnïau preifat sy'n berchen ar y mynwentydd hyn ac mae eu ffioedd yn amrywio. Nid oes gan rai mynwentydd le ar gyfer beddau newydd mwyach.

Os byddwch am i'r claddu fod mewn mynwent eglwys, gallwch ofyn i'r offeiriad neu'r gweinidog a oes lle a phwy sydd â hawl i gael ei gladdu yno.

Os bu'r unigolyn farw y tu allan i Gymru neu Loegr

Cofrestru marwolaeth rhywun

Os bu farw'r unigolyn yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon, dylech gofrestru ei farwolaeth yn y wlad honno.

Os bu farw'r unigolyn dramor, neu ar long neu awyren, dylech gofrestru ei farwolaeth yn unol â chyfreithiau'r wlad honno (neu'r wlad lle mae'r llong neu'r awyren wedi'i chofrestru) a chael y dystysgrif marwolaeth.

Os oedd yr unigolyn a fu farw yn wladolyn Prydeinig, gallech hefyd gofrestru'r farwolaeth â Chonswl Prydain yn y wlad berthnasol. Os bu farw'r unigolyn ar long neu awyren a gofrestrwyd ym Mhrydain Fawr, yna caiff y farwolaeth ei chofrestru â'r awdurdodau perthnasol yn y DU (y Cofrestrydd Cyffredinol ar gyfer Llongau a Morwyr, neu'r Awdurdod Hedfan Sifil).

Byddwch yn gallu cael y dystysgrif marwolaeth gan y Conswl Prydeinig a gofrestrodd y farwolaeth neu, o ran marwolaethau ar longau ac awyrennau, gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol.

Rhif Ffôn: 0845 603 7788

Gwefan: www.ips.gov.uk/gro

Am wybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 70.

Os bu farw'r unigolyn y tu allan i Gymru neu Loegr yn yr amgylchiadau a restrir ar dudalennau 5 a 6, neu nad oes gwybodaeth lawn am ei farwolaeth a bod ei gorff wedi dod i Gymru neu Loegr, mae'n rhaid i chi roi gwybod am ei farwolaeth i grwner yn yr un ffordd â phetai wedi marw yng Nghymru neu Loegr.

Angladdau dramor

Gallwch drefnu i'r unigolyn gael ei gladdu neu ei amlosgi dramor. Gall Is-gennad Prydain yn y wlad honno gofrestru'r farwolaeth. Mae hyn yn osgoi costau dychwelyd y corff i Gymru neu Loegr.

Dod â'r corff yn ôl i Gymru neu Loegr

Mae'n bosibl y gallwch ddod â'r corff yn ôl i Gymru neu Loegr. Dylai'r rhan fwyaf o drefnwyr angladdau allu rhoi cyngor ar sut i wneud hyn a beth fydd y gost debygol.

Bydd angen y dystysgrif marwolaeth arnoch o'r man y bu farw'r unigolyn, neu ganiatâd ffurfiol gan y crwner neu'r awdurdod perthnasol i ddychwelyd y corff i Gymru neu Loegr.

Trefnu angladd yng Nghymru neu Loegr

Er mwyn trefnu angladd yng Nghymru neu Loegr bydd angen y canlynol arnoch:

- cyfieithiad cymeradwy o dystysgrif marwolaeth dramor, neu dystysgrif marwolaeth a roddwyd yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon (mae'n rhaid i'r rhain ddangos achos y farwolaeth), a
- tystysgrif 'dim rhwymedigaeth i gofrestru' gan y cofrestrydd yn yr ardal yng Nghymru neu Loegr lle cynhelir y claddu neu'r amlosgi. Nid oes angen y dystysgrif hon arnoch os yw crwner wedi rhoi tystysgrif ar gyfer amlosgi neu orchymyn i gladdu.

Trefnu amlosgi

Os bydd rhywun yn marw dramor a'ch bod wedi dychwelyd ei gorff i Gymru neu Loegr i drefnu amlosgi, bydd angen gorchymyn amlosgi arnoch gan y crwner lleol. Gallwch gael ei fanylion gan unrhyw drefnydd angladdau lleol.

Yng Nghymru neu Loegr, os bydd gennych un o'r ddwy ffurflen uchod ni fydd angen bod y 2 ffurflen yn cael eu llofnodi gan feddygon (gweler tudalen 24). Ar gyfer marwolaethau yn yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw, ceir ffurflenni sydd yr un peth â'r ffurflenni hyn yng Nghymru a Lloegr.

Os bu farw'r unigolyn o achosion naturiol, bydd y crwner lleol yn rhoi gorchymyn i gynhyrchu'r cais am amlosgi a dogfennau gwreiddiol (sydd yn rhaid dangos achos y farwolaeth yn glir) o'r wlad y bu farw'r unigolyn ynddi.

Efallai y bydd angen cyfieithiadau cymeradwy o'r dogfennau ar y crwner lleol os byddant mewn iaith dramor. Pan fyddwch yn anfon y rhain, ysgrifennwch 'Cremation Urgent' ar yr amlen.

Os na wnaeth yr unigolyn farw o achosion naturiol bydd y crwner yn cychwyn cwest i'w farwolaeth. Yn yr achosion hyn bydd y crwner yn rhoi ffurflen ar gyfer amlosgi pan fydd yn agor y cwest.

Talu am yr angladd

Gall angladdau fod yn ddrud. Felly cofiwch sicrhau o ble daw'r arian ar gyfer yr angladd cyn gwneud unrhyw drefniadau. Fel arall, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu'r bil eich hun.

Yn gyntaf, edrychwch i weld a yw'r unigolyn sydd wedi marw wedi gwneud unrhyw gynlluniau i dalu am yr angladd. Mae'r adrannau isod yn nodi rhai posibiliadau.

Os na fydd unrhyw un yn gallu neu'n fodlon trefnu a thalu am yr angladd, gall y cyngor lleol, neu mewn rhai achosion, yr awdurdod iechyd, dalu am yr angladd, ond dim ond pan na fydd yr angladd eisoes wedi'i threfnu (gweler tudalen 38).

Os bydd rhywun wedi trefnu i dalu am ei angladd ei hun

Efallai y bydd arian ar gael i dalu am yr angladd o'r arian y mae'r unigolyn wedi'i adael ar ôl (asedau) neu drwy gynlluniau a phensiynau y mae wedi'i dalu yn ystod ei fywyd.

Ar ôl i rywun farw, bydd ei gyfrif banc yn cael ei 'rewi', oni bai ei fod yn gyfrif ar y cyd. Efallai y gallwch ddefnyddio rhan o'i gynilion i dalu am yr angladd. Bydd y banc yn gofyn i chi ddarparu rhai dogfennau, sydd fel arfer yn cynnwys y dystysgrif marwolaeth.

Dylech edrych drwy bapurau'r unigolyn am dystysgrif gan y Gymdeithas Amlosgi, ei bolisi yswiriant bywyd neu gynllun angladd sydd eisoes wedi'i dalu. Dylech hefyd chwilio am lythyrau gan ei gyn-gyflogwyr gyda manylion am unrhyw gynllun pensiwn galwedigaethol neu bensiwn personol. Gallai'r rhain dalu am gost yr angladd, a hefyd rhoi cymorth ariannol arall i'r gŵr, gwraig neu bartner sifil sy'n fyw.

Os oedd yr unigolyn yn byw mewn ysbyty neu gartref gofal preswyl, bydd yr ysbyty neu'r cartref yn trosglwyddo eiddo'r unigolyn (hyd at ffigur a bennir gan yr awdurdod lleol perthnasol) i'r perthynas agosaf, neu i'r unigolyn sydd â chaniatâd ysgrifenedig gan bwy bynnag sy'n delio â'r ewyllys (gweler tudalen 39).

Cynlluniau pensiwn cyflogwr neu bensiynau personol

Mae rhai cyflogwyr yn darparu cynlluniau pensiwn drwy'r gwaith (cynlluniau pensiwn galwedigaethol) sy'n talu cyfandaliad i helpu gyda chostau angladd ac weithiau fuddiannau pensiwn i ŵr, gwraig neu bartner sifil yr unigolyn sy'n dal yn fyw. Dylech edrych i weld a yw'r unigolyn sydd wedi marw erioed wedi bod yn aelod o gynllun o'r fath. Efallai ei fod wedi gwneud ei drefniadau ei hun os oedd yn hunangyflogedig, neu os nad oedd gan ei gyflogwr gynllun pensiwn cyflogwyr.

Os oedd yr unigolyn yn cael pensiwn o swydd flaenorol, dylech ganfod pwy sy'n ei dalu. Gallai fod yn gynllun pensiwn y cyflogwr neu'n gwmni yswiriant. Dylech ddweud wrth gynrychiolydd y cynllun pensiwn hwnnw am farwolaeth yr unigolyn, ac os oes gan yr unigolyn ŵr, gwraig neu bartner sifil sy'n fyw, plentyn dibynnol neu ddibynnydd arall, oherwydd mae'n bosibl y gallant gael pensiwn. Os ydynt eisoes yn cael pensiwn gallent gael rhagor o arian.

Dylech ganfod a oedd pensiwn yn ddyledus pan wnaeth yr unigolyn ymddeol gan gyflogwr blaenorol. Os oes pensiwn, dylech ganfod pwy sy'n gyfrifol am ei dalu, er enghraifft, y cyflogwr neu gwmni yswiriant.

Os cewch anhawster, gallwch gael help gan y Gwasanaeth Olrhain Pensiwn.

Ffôn: 0845 600 2537

Ffôn testun: 0845 300 0169 (I bobl sy'n ei chael yn anodd siarad neu glywed yn glir)

Mae'r llinellau hyn ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o 9am tan 5pm.

Gwefan: www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk

Am wybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 70.

Pensiynau a thaliadau eraill

Efallai fod pensiynau neu gyfandaliadau yn daladwy gan undeb llafur, corff proffesiynol neu gymdeithas arall, neu o glwb darbodus sy'n talu budd pan fydd aelod yn marw.

Os oedd yr unigolyn yn cael budd-dal cyn iddo farw, efallai fod rhywfaint o'r budd-dal hwnnw yn ddyledus o hyd. Pan fyddwch yn dweud wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau am farwolaeth yr unigolyn, gofynnwch iddynt anfon ffurflen atoch y gallwch ei defnyddio i hawlio unrhyw arian sy'n ddyledus (gweler tudalen 45).

Os mai chi yw'r ysgutor, telir yr arian hwn i chi. Os nad oes ysgutor ond eich bod yn talu am yr angladd, gallwch hawlio swm hyd at gostau'r angladd.

Polisïau yswiriant bywyd

Efallai fod y sawl a fu farw wedi trefnu polisi yswiriant bywyd sy'n talu cyfandaliad pan fydd rhywun yn marw cyn oedran penodol. Telir y cyfandaliad fel arfer ar ôl profiant ond gall y cwmni yswiriant dalu rhywfaint o'r arian pan fydd ganddynt brawf bod yr unigolyn hwnnw wedi marw.

Y Gymdeithas Amlosgi

Os oedd y sawl a fu farw yn aelod o'r Gymdeithas Amlosgi mae'n bosibl y gallwch dalu ffioedd amlosgi gostyngol, neu efallai bydd y Gymdeithas Amlosgi yn talu rhywfaint tuag at gost yr amlosgi.

Taliadau Angladd o'r Gronfa Gymdeithasol

Os ydych chi neu'ch partner ar incwm isel ac yn gorfod trefnu angladd, efallai y gallwch gael rhywfaint o help gyda'r costau.

Mae hwn yn un taliad di-dreth i'ch helpu i dalu am gostau angenrheidiol angladd.

Gall y Gronfa Gymdeithasol eich helpu i dalu am angladd syml, parchus a chost isel. Mae hyn yn cynnwys:

- costau angenrheidiol claddu neu amlosgi
- plot claddu newydd (os dewisir claddu)
- costau eraill penodol, a
- hyd at £700 ar gyfer unrhyw gostau angladd eraill, fel ffioedd y trefnydd angladdau, yr arch neu flodau.

Mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn 3 mis i ddyddiad yr angladd.

Mae'n rhaid i chi neu'ch partner fod yn cael un o'r budd-daliadau canlynol.

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm
- Credyd Pensiwn
- Credyd Treth Gwaith sy'n cynnwys rhan anabledd neu anabledd difrifol

- Credyd Treth Plant ar gyfradd sy'n uwch na'r gyfradd deuluol
- Budd-dal Tai
- Budd-dal Treth Cyngor

Mae'n rhaid iddo hefyd fod yn rhesymol i chi neu'ch partner dalu am yr angladd.

Efallai y bydd angen i ni ystyried amgylchiadau perthnasau eraill y person a fu farw.

Er mwyn cael cymorth ariannol, fel arfer bydd yn rhaid bod yr unigolyn wedi bod yn byw yn y DU pan fu farw ac mae'n rhaid cynnal yr angladd yn y DU fel arfer hefyd.

Os cewch Daliad Angladd, bydd yn rhaid i chi ei dalu'n ôl o ystâd y sawl a fu farw. Mae ei ystâd yn cynnwys arian, eiddo a phethau eraill yr oedd yn berchen arnynt. (Nid oes unrhyw gartref y mae'r partner sy'n fyw yn dal i fyw ynddo neu bethau personol a adawyd i berthnasau yn rhan o'r ystâd.)

I gael rhagor o wybodaeth am gael Taliad Angladd, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith drwy fynd i www.canolfanbydgwaith.gov.uk neu gallwch ddod o hyd i'n cyfeiriad a'n rhifau ffôn yn eich llyfr ffôn lleol.

Pan fydd pensiynwr rhyfel yn marw

Os oedd y sawl a fu farw yn bensiynwr rhyfel efallai y gallwch gael help gyda chost angladd syml os:

- bu farw o'r cyflwr yr oedd yn cael pensiwn rhyfel ar ei gyfer
- bu farw yn yr ysbyty tra'n cael triniaeth ar gyfer y cyflwr hwnnw
- roedd yn cael Lwfans Gweini Cyson pensiynwr rhyfel ar adeg ei farwolaeth, neu
- roedd yn cael Pensiwn Anabledd Rhyfel a aseswyd ar 80% neu fwy ac Atodiad i'r Anghyflogadwy ar adeg ei farwolaeth.

Ni fydd yn rhaid i chi dalu unrhyw ran o'r arian yn ôl o ystâd y sawl a fu farw.

Mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn 3 mis i'r angladd.

I wneud cais bydd angen i chi gysylltu ag Asiantaeth Personél y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr yn union ar ôl yr angladd.

Ffôn: 0800 169 2277

Ffôn testun: 0800 169 3458

Ddydd Llun i ddydd Iau rhwng 8.15am a 5.15pm, Dydd Gwener rhwng 8.15am a 4.30pm.

Gwefan: www.veterans-uk.info

Am wybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 70.

Help arall

Gallai'r ysbyty drefnu angladd rhywun sy'n marw yn yr ysbyty os na allant olrhain perthnasau'r unigolyn neu os na all ei berthnasau fforddio talu am yr angladd. Gallant hawlio yn erbyn ystâd yr unigolyn er mwyn talu am yr angladd.

Lle nad yw'r unigolyn wedi marw mewn ysbyty ac nad oes neb a all gymryd cyfrifoldeb am yr angladd, mae gan y cyngor lleol ddyletswydd i gladdu neu amlosgi rhywun os nad oes unrhyw drefniadau eraill wedi'u gwneud. Os oes ganddynt reswm dros gredu nad oedd yr unigolyn a fu farw am gael ei amlosgi, ni fyddant yn trefnu iddo gael ei amlosgi. Gallant hawlio yn erbyn ystâd yr unigolyn er mwyn talu am yr angladd. Holwch eich cyngor i gael rhagor o wybodaeth.

Delio ag ystâd ac eiddo rhywun

Yr ewyllys

Cyn i chi ddechrau delio ag eiddo rhywun, mae angen i chi ganfod p'un a adawodd ewyllys ddilys ai peidio. Os na allwch ganfod ewyllys, neu dim ond copi y gallwch ei ganfod, efallai ei bod gan rywun arall (fel banc, cyfreithiwr, neu'r ysgutor) i'w chadw yn ddiogel, a dylech siarad â hwy amdani.

Nid yw ewyllys o reidrwydd yn edrych fel dogfen gyfreithiol, felly ni ddylech ddinistrio unrhyw gyfarwyddiadau ysgrifenedig a gadwyd gan yr unigolyn a fu farw, oherwydd mae'n bosibl mai ei ewyllys ydynt.

Ystâd

'Ystâd' rhywun yw ei arian a'i eiddo pan fu farw. Nid yw'n cynnwys eiddo perchnogaeth ar y cyd.

Bydd ewyllys yn nodi beth ddylai ddigwydd i ystâd rhywun pan fydd yn marw. Os bydd rhywun yn marw yn gadael ewyllys ddilys, rhaid delio â'i ystâd fel y nodir yn yr ewyllys. Rhaid llunio ewyllys yn unol â rheolau llym ac efallai y bydd angen i chi gael cyngor cyfreithiol i sicrhau a yw'r ddogfen sydd gennych yn ddilys.

Os nad oes ewyllys (neu ddim ewyllys ddilys), dywedir bod yr unigolyn wedi marw yn 'ddiewyllys'. O ganlyniad, rhaid delio â'r ystâd yn unol â rheolau diffyg ewyllys, a fydd yn nodi pwy fydd yn etifeddu'r ystâd ac ym mha gyfrannau. Nodir crynodeb o'r rheolau diewyllysedd ar dudalen 49.

Eiddo perchnogaeth ar y cyd

Gallai 2 neu fwy o bobl fod yn berchen ar y cartref gyda'i gilydd fel 'cyd-denantiaid buddiol' neu 'tenantiaid cyffredin'.

- Mae cyd-denantiaid buddiol yn berchen ar y tir ar y cyd, felly pan fydd y cyntaf yn marw mae'r tir yn trosglwyddo i'r unigolyn/unigolion sy'n fyw o dan yr hawl goroesedd. Nid yw'r tŷ yn rhan o ystâd y cyntaf i farw.
- Mae tenantiaid cyffredin yn berchen ar ran o'r tir, a phan fydd un ohonynt yn marw caiff eu rhan ei chynnwys yn eu hystâd. Bydd yn trosglwyddo yn unol â'u hewyllys, neu (os nad oes ewyllys) yn dilyn rheolau diewyllysedd.

Dylid setlo natur perchnogaeth ar y cyd pan gaiff eiddo ei gaffael a'i gofnodi. Os nad ydych yn siŵr am fanylion perchnogaeth y cartref, dylech geisio cyngor cyfreithiol.

Cael caniatâd i ddelio â'r ystâd

Os gadawodd y sawl a fu farw ewyllys, bydd fel arfer wedi gofyn i ysgutor ddelio â'i ystâd.

Os na wnaeth yr unigolyn enwi ysgutor neu os nad oedd ganddo ewyllys, bydd y llys yn penodi gweinyddydd i ddelio â'r ystâd. Fel arfer bydd y gweinyddydd yn rhywun sy'n fuddiolwr yr ewyllys, neu sydd â hawl i etifeddu o dan hawliau diewyllysedd.

Gelwir ysgutorion a gweinyddwyr yn gynrychiolwyr personol hefyd.

Os oes gennych hawl i ddelio ag ystâd rhywun, efallai y bydd angen i chi wneud cais am ganiatâd gan y Gofrestrfa Profiant i'w reoli.

Gelwir y caniatâd hwn yn 'grant cynrychiolaeth' (neu brofiant yn fyr). Gallwch wneud cais am grant cynrychiolaeth eich hun neu drwy gyfreithiwr. Ceir 3 math o grant gan y Gofrestra Profiannau. Bydd y grant a roddir yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos.

Math o grant	**Rhoddir i**
Grant 'profiant'	Un neu fwy o'r ysgutorion a enwir yn yr ewyllys
Grant 'llythyrau gweinyddu (gydag ewyllys yn atodedig)'	Gweinyddydd, a benodir gan lys pan nad yw'r ysgutorion a enwyd yn yr ewyllys ar gael, yn anflodon neu'n anaddas i reoli'r ystâd, neu os nad yw'r ewyllys yn enwi ysgutorion
Grant 'llythyrau gweinyddu'	Gweinyddwyr pan nad oes ewyllys ddilys

Mae'n bosibl y gallech ddelio ag ystâd rhywun heb orfod gwneud cais am ddyfarniad o gynrychiolaeth. Dylech gysylltu â'r sefydliadau sy'n cadw'r eiddo ac arian y person a fu farw, i ganfod a oes angen iddynt weld grant cyn iddynt ryddhau unrhyw asedau i chi.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i gael grant cynrychiolaeth a gwybodaeth am dreth etifeddiant, cysylltwch â'r llinell gymorth Profiant a'r Dreth Etifeddiant.

Ffôn: 0845 30 20 900 (O ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 5pm)

Gwefan: www.hmrc.gov.uk

Gallwch gael rhagor o wybodaeth o wefan y Gwasanaeth Profiant yn www.theprobateservice.gov.uk neu gallwch fynd i unrhyw Gofrestrfa Profiant.

Beth sydd angen i'r ysgutor neu'r gweinyddydd ei wneud?

Fel ysgutor neu weinyddydd, bydd gennych ddyletswyddau a chyfrifoldebau penodol wrth ddelio ag ystâd yr unigolyn. Mae'n rhaid i chi:

- ganfod beth yw gwerth ei ystâd
- cymryd pob cam rhesymol i gasglu unrhyw arian sy'n ddyledus i'r unigolyn
- talu unrhyw dreth etifeddiant a allai fod yn ddyledus

Am wybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 70.

- alu am yr angladd
- talu unrhyw ddyledion sy'n ddyledus gan yr unigolyn o'r asedau yn ei ystâd, a
- dosrannu gweddill yr ystâd i'r buddiolwyr.

Casglu manylion am asedau a rhwymedigaethau rhywun

Dylech edrych yn ofalus drwy bapurau personol yr unigol i ganfod manylion am ei holl asedau (fel cyfrifon banc, cyfrifon cymdeithas adeiladu, polisïau yswiriant, tystysgrifau cyfranddaliadau, tystysgrifau cynilion, bondiau premiwm ac ati) a rhwymedigaethau (fel arian sy'n ddyledus ganddynt ar gyfer biliau trydan, nwy, dŵr, ffôn ac ati, a dyled bersonol fel cytundebau credyd a chyfrifon cerdyn credyd).

Mae'n bosibl y gallwch gael rhywfaint o arian a dalwyd gan yr unigolyn ymlaen llaw am eitemau fel trwydded teledu, treth cerbyd, yswiriant cartref, treth cyngor ac ati yn ôl. Dylech hefyd geisio canfod pa sefydliadau credyd yr oedd gan yr unigolyn arian yn ddyledus iddynt.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn talu unrhyw ddyledion

Dylech dalu unrhyw ddyledion, yn cynnwys costau angladd, allan o ystâd yr unigolyn. Os nad oes ystâd i dalu am yr angladd, gweler tudalennau 35.

Rydych chi, fel ysgutor neu weinydydd, yn gyfrifol am dalu dyledion yr ystâd. Os nad ydych yn gwybod am rai o'r sefydliadau neu bob un ohonynt yr oedd gan yr unigolyn gredyd â hwy (y bobl yr oedd ganddo arian yn ddyledus iddynt), dylech hysbysebu i unrhyw gredydwyr ddod ymlaen a hawlio yn erbyn yr ystâd. Gelwir yr hysbyseb hwn yn 'Hysbysiad ystadau ymadawedig' a dylech ei gyhoeddi yn 'The London Gazette'. Os yw'r ystâd yn cynnwys tir, dylech hefyd hysbysebu mewn papur newydd yn yr ardal lle lleolir y tir.

Cyhoeddir The London Gazette bob diwrnod gwaith. Bydd yn rhaid i chi dalu am yr hysbyseb gydag arian yr ystâd. Ceir rhifyn ar wahân o'r un papur newydd yn yr Alban. Ewch i www.gazettes-online.co.uk i gael rhagor o wybodaeth am sut i gyhoeddi yn The London Gazette.

Mae angen i chi roi 2 fis i gredydwyr wneud cais. Os na fyddwch yn hysbysebu, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu unrhyw hawliadau a wneir gan gredydwyr ar ôl rhannu ystâd yr unigolyn.

Dylech ddweud wrth y credydwyr mai chi yw'r ysgutor neu'r gweinyddydd. Gallai hyn hefyd olygu dweud wrth gyflenwyr dŵr, nwy, trydan a ffôn, cwmnïau hurbwrcasu neu rentu.

Un enghraifft o hawliad a allai godi yw os bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn gweld ei bod wedi talu gormod o Gymhorthdal Incwm i rywun sydd wedi marw ac yn gofyn am y gordaliad yn ôl. Os bydd gan y sawl a fu farw unrhyw Yswiriant Gwladol yn ddyledus ar ddyddiad ei farwolaeth, rhaid talu hwn hefyd o'r ystâd. Os na chaiff ei dalu, gallai effeithio ar y budd-dal a gaiff y gŵr, gwraig neu bartner sifil sy'n fyw.

Efallai y bydd yn rhaid i chi werthu rhan o'r asedau yn yr ystâd neu'r asedau i gyd i dalu dyledion yr unigolyn a fu farw. Fodd bynnag, peidiwch â rhuthro i werthu asedau neu ddosbarthu'r ystâd. Lle y bo'n briodol, dylech geisio cyngor cyfreithiol.

Hawlio unrhyw fudd-dal sy'n ddyledus i rywun

Gall yr ysgutor neu'r gweinyddydd hawlio unrhyw fudd-daliadau'r wladwriaeth sy'n ddyledus i rywun hyd yn oed ar ôl iddo farw. Efallai bod arian yn ddyledus os oedd yr unigolyn yn hawlio budd-dal neu wedi gwneud hynny'n ddiweddar.

I hawlio unrhyw fudd-dal sy'n ddyledus dylech ddangos ffurflen BD8 gan y cofrestrydd i'r Ganolfan Byd Gwaith (gweler tudalen 17) a gofyn iddynt am ffurflen i wneud cais am y budd-dal.

Weithiau, gellir talu budd-dal hyd yn oed heb wneud cais. Gofynnwch i'r Ganolfan Byd Gwaith am ragor o wybodaeth, cyn gynted â phosibl, os:

- roedd y sawl a fu farw yn aros am ganlyniad apêl yn erbyn penderfyniad ar ei fudd-dal, neu
- rydych yn credu y gallai fod wedi bod yn gymwys i gael budd-dal ond nad oedd wedi gwneud cais amdano. Efallai y gallwch weithredu ar ei ran a bydd unrhyw fudd-dal a oedd yn daladwy iddo yn cael ei dalu i'r ystâd.

Pethau i'w dychwelyd

Dylech ddychwelyd yr eitemau canlynol, gyda nodyn yn egluro beth sydd wedi digwydd a dyddiad y bu farw'r unigolyn.

- Unrhyw ffurflenni neu sieciau a roddwyd fel rhan o'r cais am fudd-dal. Dylech anfon y rhain i'r Ganolfan Byd Gwaith a'u rhoddwyd. Mae hyn hefyd yn berthnasol i daliadau Budd-dal Plant sy'n cynnwys taliad i blentyn sydd wedi marw. Ni ddylai'r Ganolfan Byd Gwaith wneud taliadau ar ôl i rywun farw. Gallai fod yn ddefnyddiol i gadw cofnod o unrhyw fudd-daliadau cyn i chi anfon unrhyw beth yn ôl.
- Pasbort yr unigolyn. Dylech anfon hwn i'r Gwasanaeth Hunaniaeth a Phasbortau er mwyn iddynt ei ganslo. Cyn ei bostio, torrwch gornel dde uchaf y pasbort. Bydd y Gwasanaeth Pasbort yn rhoi cyngor i chi ar ble i anfon y pasbort.

  Ffôn: 0300 222 0000

  Gwefan: www.passport.gov.uk

Am wybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 70.

- Trwydded yrru'r unigolyn. Dylech ei hanfon i:

  Yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
  Heol Longview
  Abertawe
  SA6 7JL.

- Y dogfennau cofrestru ar gyfer car yr unigolyn, er mwyn cofnodi pwy sy'n berchen ar y car erbyn hyn.
- Cardiau aelodaeth unrhyw glybiau, cymdeithasau neu undebau llafur.
- Llyfrau a thocynnau llyfrgell.
- Papurau Yswiriant Gwladol. Dylech anfon y rhain i'r swyddfa Cyllid a Thollau EM berthnasol.
- Unrhyw offer y GIG fel cadeiriau olwyn, cymhorthion clywed neu goesau neu freichiau ffug.
- Trwydded parcio i bobl anabl. Dylech ddychwelyd y ddisg i'r awdurdod lleol.

Bydd angen i chi gysylltu â'r Gofrestrfa Profedigaeth hefyd er mwyn dileu ei enw o'r rhestr bostio.

Dylech hefyd ganslo pethau fel gwasanaethau cymorth yn y cartref, prydau ar glud, nwy, dŵr neu drydan yr unigolyn.

Pobl y dylech ddweud wrthynt

Dylech ddweud wrth:

- unrhyw ysbyty lle'r oedd yr unigolyn yn mynd am ei apwyntiadau meddygol
- eu meddyg teulu
- Cyllid a Thollau EM (gweler tudalen 63)
- Y Ganolfan Byd Gwaith neu'r Gwasanaeth Pensiwn (os oedd yr unigolyn yn cael budd-dal neu Bensiwn y Wladwriaeth)
- cyflogwr ac undeb llafur yr unigolyn (os oeddent yn gweithio)
- ysgol neu goleg yr unigolyn (os oeddent mewn addysg)
- cwmni yswiriant car yr unigolyn (os ydych wedi'ch yswirio i yrru'r car o dan enw'r unigolyn, efallai na fyddwch wedi'ch yswirio'n gyfreithiol i yrru'r car)
- cyflenwyr nwy, trydan a ffôn
- ei gyngor lleol (efallai y bydd angen i chi ddweud wrth fwy nag un adran yn y cyngor, fel yr adran dai, gwasanaethau cymdeithasol neu'r adran treth cyngor)
- banc, cymdeithas adeiladu neu gwmni yswiriant yr unigolyn, a
- Swyddfa'r Post fel y gallant ailgyfeirio post yr unigolyn os bydd angen.

Dosbarthu'r ystâd a delio â hawliadau ar yr ystâd

Fel ysgutor neu weinydydd, eich rôl yw gweinyddwr ystâd.

Dosbarthu eiddo rhywun

Ar ôl casglu'r holl asedau ac ar ôl talu'r trethi a'r dyledion, mae'n rhaid i chi, fel yr ysgutor neu'r gweinyddydd, ddosbarthu'r hyn sydd ar ôl yn yr ystâd i'r buddiolwyr. Os bydd ewyllys, bydd yn rhaid i chi ddilyn y cyfarwyddiadau a nodir yn yr ewyllys.

Os na fydd ewyllys, bydd yn rhaid i chi ddosbarthu'r ystâd yn unol â chyfreithiau diffyg ewyllys. Mae'r crynodeb isod yn disgrifio'r rheolau anewyllysedd.

Crynodeb o'r rheolau anewyllysedd

Pan fydd person yn marw gan adael gŵr, gwraig neu bartner sifil **a** phlant.

Bydd y gŵr, gwraig neu bartner sifil yn cymryd y canlynol:

- yr eiddo personol fel eiddo yn y cartref
- etifeddiaeth statudol o'r £125,000[1] cyntaf o'r ystâd yn ddi-dreth, a
- buddiant bywyd yng ngweddill yr ystâd (gellir troi hwn yn swm cyfalaf).

Y plant fydd yn etifeddu gweddill yr ystâd. Os yw unrhyw blentyn o dan 18 oed, cedwir y rhan hon mewn ymddiriedolaeth nes bod y plentyn yn cyrraedd 18 oed neu'n priodi o dan yr oedran hwnnw.

'eiddo personol'

Mae eiddo personol yn cynnwys gemwaith, dodrefn, lluniau, llyfrau a cheir (ond nid arian, buddsoddiadau, eiddo neu asedau busnes).

[1] O 1 Chwefror 2009, bydd swm yr etifeddiaeth statudol dan yr amgylchiadau hyn yn cynyddu o £125,000 i £250,000.

Mae perthnasau **'llawn'** yn rhannu un fam a thad.

Un rhiant sy'n gyffredin rhwng **'hanner'** perthnasau.

Pan fydd person yn marw gan adael gŵr, gwraig neu bartner sifil **ond ddim** plant

Bydd y gŵr, gwraig neu bartner sifil yn cymryd y canlynol:

- yr eiddo personol fel eiddo yn y cartref
- etifeddiaeth statudol o'r £200,000[2] cyntaf o'r ystâd yn ddi-dreth, a
- perchnogaeth lawn dros hanner yr ystâd sy'n weddill.

Bydd y rhieni yn etifeddu hanner arall yr ystâd (yn gyfartal os yw'r ddau yn fyw), neu os nad yw rhiant yn fyw, caiff ei rannu rhwng brodyr neu chwiorydd 'llawn'.

[2] O 1 Chwefror 2009, bydd swm yr etifeddiaeth statudol dan yr amgylchiadau hyn yn cynyddu o £200,000 i £450,000.

Pan fydd person yn marw **heb** ŷr, gwraig neu bartner sifil yn goroesi

Dyrennir yr ystâd i berthnasau gwaed y person, yn y drefn ganlynol:

- i'r plant, ond os nad oes
- i'r rhieni, ond os nad oes
- i'r broder neu chwiorydd 'llawn', ond os nad oes
- i'r 'hanner' brodyr neu chwiorydd, ond os nad oes
- i'r neiniau/teidiau, ond os nad oes
- i'r modrybedd neu ewythyrod 'llawn', ond os nad oes

- i'r 'hanner' modrybedd neu ewyrthyrod, ond os nad oes
- i'r Goron.

Dyrennir yr ystâd yn gyfartal rhwng y rhai â hawl iddi.

Er mwyn etifeddu, rhaid i unrhyw berthynas a restrir isod oroesi'r person a fu farw, a bod yn 18 oed (oni bai ei fod yn priodi cyn cyrraedd 18 oed). Os bydd yn marw cyn cyrraedd 18 (neu'n priodi yn ieuengach na 18 oed), bydd eu rhan yn mynd i eraill yn y grŵp hwnnw.

Heblaw am rieni a neiniau/teidiau, os yw unrhyw berthynas a restrir uchod wedi marw eisoes ond â phlant eu hunain, rhennir eu rhan hwy yn gyfartal rhwng y plant hyn.

Pwy sy'n gallu gwneud hawliadau ar ystâd?

P'un a ydych yn perthyn i'r unigolyn a fu farw ai peidio, gallwch wneud cais i'r llys am gyfran o'i ystâd os oedd yn eich cynnal yn ariannol mewn unrhyw ffordd yn union cyn iddo farw. Bydd hyn yn gymwys i bartneriaid dibriod (neu bartneriaid lle nad oes partneriaeth sifil) mewn achos pan nad oes ewyllys.

Os byddwch yn gymwys, mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn 6 mis i'r dyddiad y rhoddwyd y grant cynrychiolaeth. Gallai'r llys adael i chi wneud cais yn ddiweddarach mewn amgylchiadau arbennig.

Os byddwch am wneud cais, dylech gael cyngor cyfreithiol cyn gynted â phosibl ar ôl i'r unigolyn farw. Peidiwch â'i adael nes ar ôl 6 mis.

Beth sy'n digwydd os nad oes gan yr unigolyn sy'n marw unrhyw berthnasau?

Os nad oes ewyllys ac nad oes gan yr unigolyn a fu farw ŵr, gwraig neu bartner sifil na pherthnasau gwaed yn fyw, bydd yr ystâd yn mynd i'r Goron. I gael rhagor o wybodaeth, dylech gysylltu ag Adran Cyfreithwyr y Trysorlys.

The Treasury Solicitor's Department (BV)
One Kemble Street
London WC2B 4TS

Effaith priodas, ysgariad a phartneriaid sifil ar ewyllys

Os bydd rhywun yn gwneud ewyllys ac yna'n priodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil, bydd ei ewyllys yn annilys. Fodd bynnag, os bydd yn gwneud ewyllys gan wybod ei fod am briodi neu ffurfio partneriaeth sifil **gyda rhywun yn benodol** a bod yr ewyllys yn adlewyrchu'r bwriad hwn, bydd yr ewyllys yn parhau'n ddilys.

Os gwnaeth rhywun sydd mewn perthynas ag unigolyn o'r un rhyw ewyllys cyn 5 Rhagfyr 2005, ac yna'n cofrestru fel partneriaeth sifil yng Nghymru neu Loegr yn ddiweddarach, yna mae ei ewyllys yn dal yn ddilys.

Yn gyffredinol, os bydd rhywun yn gwneud ewyllys ac yna'n cael ysgariad neu'n diddymu partneriaeth sifil, ni fydd:

- unrhyw rodd a adawyd i gyn-ŵr, gwraig neu bartner sifil, a
- penodi eu cyn-ŵr, gwraid neu bartner sifil fel ysgutor

yn dod i rym oni fydd yr ewyllys yn dweud fel arall.

Os bydd plentyn wedi marw

Budd-dal a delir i bobl sy'n magu plant yw Budd-dal Plant. Os bydd plentyn wedi marw, rhaid i chi ddweud wrth Gyllid a Thollau EM o fewn 8 wythnos i farwolaeth y plentyn.

Byddwch yn parhau i gael Budd-dal Plant ar gyfer y plentyn sydd wedi marw am 8 wythnos ar ôl ei farwolaeth. Gallwch gysylltu â Chyllid a Thollau EM gan ddefnyddio'r manylion isod.

Ffôn: 0845 302 1444

Ffôn testun: 0845 302 1474

Gwefan: www.hmrc.gov.uk/childbenefit

Am wybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 70.

Help a chymorth i chi

Os bydd rhywun yn eich teulu yn marw gall achosi problemau ariannol i chi. Mae'n bosibl mai dim ond am gyfnod byr fydd hyn, tra'ch bod yn aros i'w ystâd gael ei dosbarthu, neu efallai y bydd angen cymorth hirdymor arnoch.

Mae'r adran hon yn sôn am fudd-daliadau a hawliadau a allai fod o gymorth i chi ar ôl i rywun farw.

Os ydych yn weddw neu'n bartner sifil sy'n fyw, ceir gwahanol fathau o fudd-daliadau y gallwch eu cael. Gall y budd-dal a gewch ddibynnu ar eich oedran neu nifer y plant sydd gennych yn byw gyda chi.

Mae math a swm y budd-dal profedigaeth a gewch yn seiliedig ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol eich gŵr, gwraig neu bartner sifil.

Os na allwch gael Pensiwn y Wladwriaeth llawn gan nad oedd eich gŵr, gwraig neu bartner sifil wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol, a'u bod wedi marw oherwydd damwain yn y gwaith neu afiechyd diwydiannol, bydd Y Gwasanaeth Pensiwn yn trin eich achos fel petai eich gŵr, gwraig neu bartner sifil wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol llawn.

Os byddwch yn priodi rhywun arall, yn ffurfio partneriaeth sifil neu'n byw gyda rhywun fel petaent yn ŵr, gwraig neu bartner sifil i chi, ni fyddwch yn gallu parhau i gael budd-daliadau profedigaeth.

Budd-daliadau profedigaeth

Cyflwynwyd y Cynllun Budd-dal Profedigaeth ar 9 Ebrill 2001, ac mae'n berthnasol i bobl a wnaed yn weddw ar neu ar ôl dyddiad hwnnw. Mae hefyd yn berthnasol i bobl a ddaeth yn bartneriaid sifil sy'n fyw ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005.

Efallai y gallech gael Taliad Profedigaeth a naill ai:

- Lwfans Rhiant Gweddw, neu
- Lwfans Profedigaeth.

I fod yn gymwys i gael y budd-daliadau profedigaeth hyn, rhaid bod eich gŵr, eich gwraig neu'ch partner sifil wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Nid yw'r cyfraniadau a dalwyd gennych yn cyfrif am y budd-daliadau hyn.

Taliad Profedigaeth

Mae Taliad Profedigaeth yn gyfandaliad di-dreth i'ch helpu pan fydd eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil yn marw.

Gallwch gael Taliad Profedigaeth os yw eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol, neu os achoswyd ei farwolaeth/marwolaeth gan ei swydd, ac:

- roeddech o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth eich hun pan fuont farw, neu
- nid oedd ganddynt hawl i Bensiwn y Wladwriaeth Dosbarth A pan fuont farw.

Mae Pensiwn y Wladwriaeth Dosbarth A yn cynnwys Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth a Phensiwn Ychwanegol y Wladwriaeth. Efallai y cewch un o'r ddwy ran neu'r ddwy.

Ni allwch gael Taliad Profedigaeth os, pan fu farw eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil:

- roeddech wedi ysgaru neu roedd eich partneriaeth sifil wedi'i diddymu'n gyfreithiol
- roeddech yn cydfyw â rhywun arall fel pe baech yn briod neu mewn partneriaeth sifil gyda hwy, neu
- tra roeddech yn y carchar neu yn y ddalfa.

Lwfans Rhiant Gweddw

Mae Lwfans Rhiant Gweddw yn daliad rheolaidd y gallwch ei gael os:

- gwnaeth eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil dalu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol, **ac**
- oes gennych o leiaf un plentyn rydych yn cael Budd-dal Plant ar ei gyfer, ac rydych o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth, **neu**
- rydych yn disgwyl plentyn eich diweddar ŵr neu bartner sifil (gan gynnwys o ganlyniad i driniaeth IVF) ac roeddech yn byw gyda hwy yn union cyn iddynt farw.

Os nad yw'r plentyn yn byw gyda chi, ond rydych yn talu rhywfaint o gostau darparu ar gyfer y plentyn hwnnw, gallech gael Lwfans Rhiant Gweddw.

Mae rheolau arbennig pan fyddwch chi a'ch plentyn yn byw dramor neu os ydych wedi dychwelyd i Brydain Fawr yn ddiweddar. Gall ymgynghorydd yn y Ganolfan Byd Gwaith egluro os ydych yn credu y gallai hyn fod yn berthnasol i chi.

Daw Lwfans Rhiant Gweddw i ben pan nad oes gennych blentyn dibynnol mwyach. Os yw hyn o fewn 52 wythnos i golli eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil, efallai y bydd gennych hawl i Lwfans Profedigaeth.

Rhaid i chi dalu treth ar Lwfans Rhiant Gweddw ac mae'n cynnwys lwfans sylfaenol a 'phensiwn ychwanegol' os ydych yn gymwys i'w gael.

Lwfans Profedigaeth

Mae Lwfans Profedigaeth yn daliad rheolaidd y gallwch ei gael os:

- gwnaeth eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil dalu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol, **neu**
- achoswyd y farwolaeth gan ei swydd, **ac**
- roeddech yn 45 neu'n hŷn, ond o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth eich hun pan fu farw.

Ni allwch gael Lwfans Profedigaeth os, pan fu farw eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil:

- roeddech wedi ysgaru neu roedd eich partneriaeth sifil wedi'i diddymu'n gyfreithiol

- roeddech yn cydfyw â rhywun arall fel pe baech yn briod neu mewn partneriaeth sifil â hwy, neu
- tra roeddech yn y carchar neu yn y ddalfa.

Sut i wneud cais am fudd-daliadau profedigaeth

Ni fyddwch yn gwneud cais am bob budd-dal ar wahân.

Bydd angen tystysgrif marwolaeth eich gŵr, gwraig neu bartner sifil arnoch. Os yw'r farwolaeth wedi cael ei chyfeirio at y crwner ac y gallai cwest gymryd cryn amser, gofynnwch i'r crwner roi 'tystysgrif interim o ffaith y farwolaeth' neu lythyr sy'n cadarnhau marwolaeth yr unigolyn.

Mae'n rhaid i chi wneud cais am fudd-daliadau profedigaeth o fewn tri mis i farwolaeth eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil. Fodd bynnag, gallwch wneud cais am Daliad Profedigaeth am hyd at 12 mis ar ôl marwolaeth eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil.

Hawliadau a allai fod wedi newid

Efallai y byddwch yn canfod fod cyfraniadau Yswiriant Gwladol eich diweddar ŵr, gwraig neu bartner sifil yn eich gwneud yn gymwys i gael budd-daliadau neu hawliadau newydd neu fwy ohonynt.

Os credwch y gallai hyn effeithio ar fudd-daliadau eraill rydych eisoes yn eu cael, mae'n rhaid i chi gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Pensiwn y Wladwriaeth

Os oeddech chi a'ch diweddar ŷr, gwraig neu barter sifil yn cael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth pan fuont farw, efallai y gallwch ddefnyddio eu cyfraniadau Yswiriant Gwladol i gael swm mwy o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth.

Os oeddech dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth (60 oed i ferched a anwyd cyn 5 Ebrill 1950 a 65 oed i ddynion ar hyn o bryd) pan fu farw eich gŵr, gwraig neu bartner sifil, efallai y gallwch gael rhywfaint o Bensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar eu cyfraniadau Yswiriant Gwladol eich hun neu eu cyfraniadau hwy, neu gyfuniad o'r ddau, hyd at derfyn penodol (yn dibynnu ar eich amgylchiadau).

Gallech gael rhywfaint o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth eich diweddar ŵr, gwraig neu bartner sifil neu'r holl bensiwn – efallai eich bod yn galw hwn yn Bensiwn y Wladwriaeth ar Sail Enillion (SERPS) neu Ail Bensiwn y Wladwriaeth.

Os oedd y ddau ohonoch dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth, gallwch gael Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth ar unwaith. Mae'r swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar y dyddiad y gwnaeth eich gŵr, gwraig neu bartner sifil gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth a'r dyddiad y buont farw.

I gael rhagor o wybodaeth am eich hawl i gael Pensiwn y Wladwriaeth, cysylltwch â'r Gwasanaeth Pensiwn.

Ffôn: 0845 60 60 275

Ffôn testun: 0845 60 60 295

Ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am ac 8pm.

Gwefan: www.thepensionservice.gov.uk

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth

Os ydych yn sâl a'ch bod wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol gallech gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Gallai unrhyw fudd-dal profedigaeth a gewch effeithio ar faint o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a gewch, felly gofynnwch i'r Ganolfan Byd Gwaith egluro hyn i chi.

Os nad ydych wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a bod eich gŵr, gwraig neu bartner sifil wedi marw, gallech gael credydau arbennig i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Er mwyn cael credydau arbennig, mae'n rhaid eich bod yn sâl ac wedi rhoi'r gorau i gael rhai budd-daliadau ar gyfer eich gŵr, gwraig neu bartner sifil sydd wedi marw. Ni allwch gael credydau arbennig os yw'ch budd-dal profedigaeth wedi dod i ben oherwydd eich bod:

- yn ailbriodi
- yn ffurfio partneriaeth sifil newydd, neu
- yn dechrau byw gyda phartner newydd.

Am wybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 70.

Taliadau ar gyfer profedigaeth mewn amgylchiadau arbennig

Anafiadau, damweiniau ac afiechydon diwydiannol

Os oedd eich gŵr, gwraig neu barter sifil yn anabl yn sgîl damwain neu afiechyd diwydiannol a ddigwyddodd cyn iddynt farw, ac nad oeddent yn cael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, gallech ei hawlio nawr am gyfnod ar ôl eu marwolaeth.

Mae hyn yn cynnwys os bu farw eich gŵr, gwraig neu bartner sifil yn sgîl niwmoconiosis, byssinosis neu un o afiechydon penodol eraill a gawsant o'r gwaith cyn 5 Gorffennaf 1948.

Peidiwch ag oedi cyn gwneud eich cais neu gallech golli budd-dal.

Cynllun lawndal y Lluoedd Arfog

Os oedd marwolaeth eich gŵr, gwraig neu bartner sifil o ganlyniad i'w gwasanaeth gyda Lluoedd Arfog Ei Mawrhydi gallech fod yn gymwys i gael help o dan Gynllun lawndal y Lluoedd Arfog.

Mae'r cynllun hwn yn rhoi budd-daliadau ar gyfer salwch, anaf neu farwolaeth a achoswyd drwy wasanaethu yn y lluoedd arfog ar neu ar ôl 6 Ebrill 2005. Ar gyfer marwolaeth a achoswyd gan wasanaeth, telir Taliad Incwm Gwarantedig Goroeswyr trethadwy i'r partner sy'n fyw. Byddent hefyd yn cael grant profedigaeth ychwanegol i rywun a fu farw yn ystod ei ymddeoliad.

Os bu farw eich gŵr, gwraig neu bartner sifil wrth wasanaethu a'u bod yn aelod o Gynllun Pensiwn y Lluoedd Arfog 2005, gallech gael cyfandaliad.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Asiantaeth Personél y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr.

Ffôn: 0800 169 2277

Ffôn testun: 0800 169 3458

Ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau rhwng 8.15am a 5.15pm, a dydd Gwener rhwng 8.15am a 4.30pm.

Gwefan: www.veterans-uk.info

Am wybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 70.

Sut i fagu baban neu blentyn

Budd-daliadau mamolaeth

Os ydych yn feichiog efallai y bydd gennych hawl i gael Tâl Mamolaeth Statudol gan eich cyflogwr neu Lwfans Mamolaeth gan y Ganolfan Byd Gwaith. Efallai y gallech gael Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn gan y Gronfa Gymdeithasol.

Budd-dal Plant

Os ydych yn rhiant dylech eisoes fod yn cael Budd-dal Plant.

Os dewch yn gyfrifol am fagu plentyn ar ôl i rywun farw dylech allu cael Budd-dal Plant hefyd. Dylech wneud cais am Fudd-dal Plant cyn gynted â phosibl ar ôl i chi wybod mai chi fydd gwarcheidwad cyfreithiol y plentyn. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â Chyllid a Thollau EM.

Cyllid a Thollau EM

Ffôn: 0845 302 1444

Ffôn testun: 0845 302 1474

Gwefan: www.hmrc.gov.uk

Lwfans Gwarcheidwad

Gallech hefyd gael Lwfans Gwarcheidwad os dewch yn gyfrifol am fagu plentyn ar ôl i rywun farw.

Er mwyn cael Lwfans Gwarcheidwad, mae'n rhaid i chi fod yn gymwys i gael Budd-dal Plant ar gyfer y plentyn. Fel arfer, er mwyn i chi gael Lwfans Gwarcheidwad mae'n rhaid bod dau riant y plentyn yn farw.

Am wybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 70.

Ond, mae'n bosibl y gallwch ei gael os:

- bydd un rhiant yn farw ac ni ellir olrhain y llall neu mae'n cwblhau dedfryd hir yn y carchar
- roedd rhieni'r plentyn wedi ysgaru neu daeth eu partneriaeth sifil i ben yn gyfreithiol ac ni ddyfarnwyd cystodaeth o'r plentyn i'r rhiant sy'n fyw, neu
- mae mam y plentyn yn farw ac nid yw'r tad yn hysbys.

Gallwch wneud cais am Fudd-dal Plant a Lwfans Gwarcheidwad ar yr un pryd.

Os ydych eisoes wedi gwneud cais am Fudd-dal Plant, gwnewch eich cais am Lwfans Gwarcheidwad cyn gynted â phosibl ar ôl hyn.

Help os nad oes gennych ddigon o arian i fyw arno neu os oes ydych ar incwm isel

Os yw eich gŵr, gwraig neu bartner sifil yn marw, efallai y byddwch yn gweld bod eich incwm yn llai, ac efallai y cewch anhawster i gael dau ben llinyn ynghyd. Efallai y byddwch yn gymwys i gael un math neu fwy o gymorth i bobl sydd ar incwm isel.

Credydau treth

Diben Credyd Treth Gwaith yw helpu pobl sy'n gweithio ond sydd ar incwm isel. Mae'r swm a gewch yn dibynnu ar sawl peth, fel eich incwm blynyddol a nifer yr oriau rydych yn eu gweithio.

Er mwyn bod yn gymwys mae'n rhaid eich bod yn gweithio dros 16 awr yr wythnos. Efallai y gallwch gael help ychwanegol os ydych:

- yn anabl
- dros 50 oed ac wedi dychwelyd i'r gwaith yn ddiweddar ar ôl bod ar fudd-dal, neu
- yn gweithio mwy na 30 awr yr wythnos.

Nid oes angen i chi fod yn gyfrifol am blant, ond os ydych yn gyfrifol amdanynt, gallech gael help hefyd gyda rhai o'ch costau gofal plant.

Nid oes rhaid i chi dalu treth ar Gredyd Treth Gwaith.

Lwfans i bobl sy'n gyfrifol am blentyn neu berson ifanc yw Credyd Treth Plant Gallwch ei gael os ydych yn gyfrifol am blentyn sydd fel arfer yn byw gyda chi. Gallwch ond gwneud un cais am bob plentyn.

Bydd p'un a ydych yn gymwys a'r swm y gallech ei gael yn dibynnu ar nifer o bethau, fel incwm eich cartref a nifer ac oedran y plant sydd gennych.

Gallwch wneud cais am gredydau treth gan Gyllid a Thollau EM.

Ffôn: 0845 300 3900

Ffôn testun: 0845 300 3909

Ar agor rhwng 8am a 8pm bob dydd

Gwefan: www.hmrc.gov.uk

Cymhorthdal Incwm

Os na allwch weithio mwy na 16 awr yr wythnos ac nad oes gennych ddigon o arian i fyw arno, gallech gael Cymhorthdal Incwm. Mae'n rhaid eich bod:

- o dan 60 oed
- yn berchen ar lai na £16,000 mewn cynilion, ac
- yn gweithio llai na 16 awr yr wythnos.

Efallai y bydd angen i chi siarad â chynghorydd swyddi i weld a yw gwaith yn opsiwn, cyn i chi allu cael Cymhorthdal Incwm. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith neu ymwelwch â'n gwefan yn www.canolfanbydgwaith.gov.uk

Am wybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 70.

Lwfans Ceisio Gwaith

Lwfans Ceisio Gwaith yw'r prif fudd-dal ar gyfer pobl sydd allan o waith. Os ydych yn gymwys caiff ei dalu pan na fydd gennych swydd a'ch bod yn chwilio am waith.

Mae 2 fath o Lwfans Ceisio Gwaith.

- Mae'r cyntaf yn seiliedig ar faint o Yswiriant Gwladol rydych wedi'i dalu yn ystod y ddwy flwyddyn dreth ddiwethaf. Gallwn dalu hyn i chi am hyd at 182 o ddiwrnodau. Fe'i gelwir yn 'Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau'.
- Mae'r llall yn seiliedig ar eich incwm a'ch cynilion. Gelwir hyn yn 'Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm'.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith neu ewch i www.canolfanbydgwaith.gov.uk

Credyd Pensiwn

Os ydych yn 60 oed neu'n hŷn, gallech gael Credyd Pensiwn i ychwanegu at incwm isel, hyd yn oed os oes gennych swm bychan o gynilion neu fuddsoddiadau.

Gallwch wneud cais am Gredyd Pensiwn drwy gysylltu â'r Gwasanaeth Pensiwn.

Ffôn: 0800 99 1234

Ffôn testun: 0800 169 0133

Ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am ac 8pm.

Gwefan: www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk

Am wybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 70.

Budd-dal Tai

Arian yw Budd-dal Tai i'ch helpu i dalu am rywfaint o'ch rhent a rhai taliadau gwasanaeth. Efallai y gallwch ei gael os ydych ar incwm isel ac nad oes gennych lawer o gynilion.

P'un a ydych yn talu rhent i landlord preifat, cymdeithas dai, eich cyngor lleol neu hostel neu westy bach, efallai y gallwch gael rhywfaint o Fudd-dal Tai o hyd.

Nid yw Budd-dal Tai yn talu llog ar eich morgais, costau tanwydd (nwy a thrydan) a rhai costau gwasanaeth (yn dibynnu ar eich amgylchiadau).

Nid ydych yn debygol o gael Budd-dal Tai os ydych yn byw gydag aelod o'ch teulu agos.

Budd-dal Treth Cyngor

Mae'n fudd-dal sy'n eich helpu i dalu eich treth cyngor. Efallai y gallwch wneud cais am Gredyd Treth Gwaith os ydych ar incwm isel ac yn gweithio dros 16 awr yr wythnos.

Treth cyngor yw'r ffordd rydych yn talu am y gwasanaethau lleol a ddarperir gan eich cyngor. Mae faint y byddwch yn ei dalu yn dibynnu ar werth eich cartref. Fel arfer, yr unigolyn (neu'r bobl) sy'n berchen ar y cartref neu sy'n ei rentu sy'n gyfrifol am dalu treth cyngor.

Os mai dim ond Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor rydych am wneud cais amdano, bydd angen i chi gysylltu â'ch cyngor lleol. Bydd eu rhif yn llyfr ffôn.

Os ydych yn gwneud cais am fudd-daliadau eraill hefyd efallai y bydd angen i chi wneud eich cais drwy'r Ganolfan Byd Gwaith neu'r Gwasanaeth Pensiwn.

Help gyda chostau iechyd

Os ydych dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth neu eich bod yn cael rhai budd-daliadau (er enghraifft, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm, neu gredydau treth), pan fydd eich incwm yn is na lefel benodol efallai y gallwch gael help gyda chostau iechyd.

I gael rhagor o wybodaeth am help gan y GIG, ewch i'r wefan ar gyfer yr ardal rydych yn byw ynddi.

- Cymru
  www.nhsdirect.wales.nhs.uk/small/cy/hafan/gwybodaethiechyd
- Lloegr
  www.nhs.uk/healthcosts
- Yr Alban
  www.scotland.gov.uk/publications

Costau galwadau

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau daear BT ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

O fis Medi 2008, ni ddylai cost galwadau i rifau 0845 o linellau daear BT fod yn fwy na 4c y funud gyda thâl o 7c ar gyfer gwneud yr alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Codir cyfradd genedlaethol eich cwmni ffôn ar gyfer galwadau i rifau 0300 o linellau daear a ffonau symudol.

Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly gofynnwch i'ch darparwr gwasanaeth am gost galwadau

Ffonau Testun

Mae ein rhifau ffôn tesun ar gyfer pobl sy'n ei chael hi'n anodd siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, efallai y bydd gan ambell lyfrgell neu ganolfan cyngor ar bopeth un. Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Gwybodaeth bwysig am y daflen hon

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir o fis Ionawr 2009.

Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft, o ganlyniad i newidiadau i'r gyfraith.

Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This leaflet is also available in English.

www.canolfanbydgwaith.gov.uk

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn ymroddedig
i weithredu egwyddorion cyfle cyfartal
yn ei rhaglenni a'i gwasanaethau.

Cynhyrchwyd gan y Ganolfan Byd Gwaith,
rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

ISBN 978-1-84763-213-5
DWP1027W | f1.1 (Ionawr 2009)

Hoffem gael eich barn am y daflen hon.

Atebwch y cwestiynau isod, rhwygwch y slip a i ddychwelyd at y cyfeiriad rhadbost dros y dudalen. Mae eich atebion yn gwbl gyfrinachol ac fe i defnyddir i wella'r daflen hon.

Pa mor ddefnyddiol oedd y dafl en hon wrth ateb eich cwestiynau?

☐ defnyddiol iawn ☐ eithaf defnyddiol ☐ ddim yn ddefnyddiol ☐ dim o gwbl

Pa mor hawdd ydoedd i ddod o hyd i r wybodaeth yr oedd ei hangen arnoch?

☐ defnyddiol iawn ☐ eithaf defnyddiol ☐ ddim yn ddefnyddiol ☐ dim o gwbl

Oes unrhyw dudalennau yn y daflen hon y byddech yn eu gwella mewn unrhyw ffordd? Os felly, pa dudalennau a sut?

Ydych chi n credu y byddwch yn cyfeirio at y daflen hon eto yn y dyfodol?

☐ byddaf ☐ na fyddaf

Oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y daflen hon?

Nid oes yn rhaid i chi gwblhau'r rhan hon, ond mae n ein helpu i ddeall mwy am ein cwsmeriaid.

Ydych chi'n: ☐ gwryw ☐ fenyw

Beth yw eich oedran? _____

Beth yw eich cod post? _____

Dylid defnyddio r ffurflen hon i roi sylwadau ar y daflen hon yn unig. Bydd ymatebion yn mynd i gwmni sy n darparu adroddiadau am y ffurflenni a dderbyniwyd ganddynt, a dim ond i gael gwell syniad o sut i wella ac rydym yn ei ddefnyddio. Ni all yr Adran Gwaith a Phensiynau ateb cwestiynau unigol am fudd-daliadau neu lwfansau a ofynnir ar y daflen hon.

Freepost RLUG-AXKG-BGXJ
Department for Work and Pensions
Leaflet Feedback
Jobcentre Plus Marketing
Level 1
Steel City House
West Street
Sheffield
S1 2GQ